# Frenhinol Cymru Ffair Aeaf Rhaglen Addysgol 2023



CAFC · RWAS 1904

CAFC RWAS

## EIN TIR
## OUR LAND

BWYDO GWYBODAETH, ANGERDD A DEALLTWRIAETH O FFERMIO
MEWN RHEINI FYDD YN LLUNIO Y DYFODOL

# CROESO
# WELCOME

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru wedi chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad amaethyddiaeth a'r economi wledig yng Nghymru ers dros ganrif.

Rydym yn llawn cyffro wrth gyflwyno prosiect newydd wedi'i leoli yng Nghanolfan yr Aelodau i gynnig profiad addysgol rhad ac am ddim i blant ysgol o bob cwr o Gymru a'u gwahodd i ymweld â'r Ffair Aeaf am brofiad dysgu ymarferol rhyngweithiol.

Teitl ein Hoffrwm addysgol eleni yw 'Ein Tir' / 'Our Land' gyda'r ffocws ar 'Iechyd Pridd' a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar bopeth o gynhyrchu cnydau i newid hinsawdd.

Mae'r pridd yn darparu lliaws o wasanaethau hollbwysig i bobl ac i'r blaned, mae pridd yn rhoi bwyd ar ein platiau, yn puro ein dŵr, yn ein diogelu rhag llifogydd ac yn gwrthsefyll sychder, 'does dim diogelwch bwyd heb bridd iach.

Edrychwn ymlaen at groesawu dysgwyr o bell ac agos i Faes y Sioe.



# YR WYNEBAU Y TU ÔL I'R FFAIR AEAF

**Alwyn Rees**



Mae Alwyn, sy'n ffermio Caeceinach, Pennal ym Meirionnydd wedi ymgymryd a llawer o swyddi o fewn y diwydiant o'r blaen, yn cynnwys Cadeirydd Cymdeithas Defaid Mynydd Ucheldir Cymreig Meirionnydd, aelod y Cyngor dros Gymru i'r Gymdeithas Charolais Prydeinig, a Chadeirydd Cymru Cyngres Charolais y Byd.

Mae ymroddiad Alwyn i'r diwydiant wedi arwain i lawer o anrhydeddau, yn 2014 fe'i gwnaed yn Gymrawd o'r Cyngor Dyfarniadau i'r Cymdeithasau Amaethyddol Brenhinol. Yn 2015, dyfarnwyd Gwobr Goffa John Gillins CAFC iddo am gyfraniad nodedig i Ddiwydiant Defaid Cymru ac yn 2016 roedd yn Gadeirydd Digwyddiad Tir Glas Brenhinol Cymru, a gynhaliwyd gan Sir Nawdd Meirionnydd ar Ystad Rhug, Corwen. Yn ddiweddar etholwyd Alwyn yn ei Sir enedigol yn Llywydd newydd CFfl Meirionnydd. Mae Alwyn wedi beirniadu llawer o gystadlaethau da byw hefyd yn cynnwys yr Adran Defaid Mynydd Ucheldir Cymreig, y Prif Bencampwr Biff yn CAFC a'r Adran Brid Ucheldir Wyn Cigyddion yn y Ffair Aeaf.

Bu Alwyn yn gysylltiedig a'r Gymdeithas ers blynyddoedd lawer ac mae'n cyfrannu at lawer o Bwyllgorau'r Gymdeithas, mae'n Gadeirydd Pwyllgor Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, yn aelod presennol o'r Bwrdd ac yn aelod o'r Cyngor, ac yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Siriol Meirionnydd. Mae'n rhannu cydangerdd i wella ymgysylltiad i bawb trwy addysg.

**Rob Davies**



Bu Rob Davies yn aelod pwyllgor sydd wedi rhoi gwasanaeth maith i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ac mae'n eithriadol angerddol mewn perthynas ag addysg.

Yn 2022, cafodd weledigaeth i gynnwys cynnig addysgol o fewn y Ffair Aeaf ac ynghyd ag aelodau o'r un anian, daeth yn brif ysgogwr wrth ddarparu cyfle i Bobl Ifanc ymgysylltu a'r arweinyddion cysylltiedig yn y diwydiant Amaeth.

Yn dilyn ymlaen o'r cynnig y llynedd, mae'r cysyniad hwn wedi tyfu i ddod yn well cynnig i'r hall bobl ifanc ac oedolion.

Byddem yn hoffi diolch i Rob am ei angerdd a'i egni wrth dyfu'r adnodd hwn, y mae mawr angen amdano.

**William Hanks**



William Hanks yw Cyfarwyddwr y Ffair Aeaf, ac mae'n falch o alw Morgannwg, sir nawdd eleni, yn gartref iddo. Aeth i ysgol Gynradd Llancarfan ac yna ymlaen i Ysgol Gyfun y Bechgyn yn Y Barri. Mynychodd Goleg Amaethyddol Pencoed am 3 blynedd ac enillodd Dystysgrif City and Guilds mewn Amaethyddiaeth yn ogystal a Thystysgrif Crefftwr yr A.T.B.

Daw William o gefndir ffermio, roedd ei rieni'n rhedeg fferm laeth ochr yn ochr a'i efell a'r teulu, 'doedd y fferm ddim yn ddigon mawr i gynnal 3 theulu, felly penderfynodd arallgyfeirio i fanwerthu llaeth, a ddechreuodd yn fach and tyfodd y busnes ac yn y diwedd roeddynt yn danfon llaeth (mewn poteli gwydr) i 1400 o gartrefi ym Mro Morgannwg.

Bu William yn gysylltiedig a Sioe Frenhinol Cymru a'r Ffair Aeaf ers mwy na 31 mlynedd a daeth yn Gyfarwyddwr y Ffair Aeaf yn 2011 pan gymerodd yr awenau gan ei Dad. Mae'n frwd ei gefnogaeth i addysg a phobl ifanc.

**Aled Rhys Jones**



Aled Rhys Jones yw Prif Weithredwr Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru. Tyfodd i fyny ar fferm fynydd y teulu yng Nghwrt-y-Cadno a chwaraeodd ran weithgar ym mudiad y Ffermwyr Ifanc. Ar ol graddio o Brifysgol Reading gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Rheoli Tir, treuliodd Aled ran gynnar ei yrfa fel Asian! Tir a daeth yn Syrfewr Siartredig a Phrisiwr Amaethyddol cymwysedig. Mae'n ddarlledwr talentog hefyd a chyn ymuno a CAFC, ef oedd cyflwynydd arweiniol rhaglen newyddion ffermio BBC Radio Cymru, Bwletin Amaeth, ynghyd a sawl podlediad arall.

Mae Aled yn Ysgolor Ffermio Nuffield wedi iddo dderbyn Gwobr Nuffield Ifanc (Bob Matson) a gyflwynir i entrepreneuriaid ifanc. Aeth ei ysgoloriaeth dwy flynedd ag ef o amgylch y byd, trwy ba un y cyflwynwyd ei adroddiad "Cymdeithasau a sioeau amaethyddol: i ble'r awn ni o'r fan hyn?". Yn ystod ei ysgoloriaeth, ymwelodd a saith o'r ffeiriau taleithiol mawr yn America ac fe'i trawyd gan faint o addysg amaethyddol oedd ar gynnig. Mae Ffeiriau Taleithiol America yn manteisio ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae ffermwyr yn ei wneud. Wrth i genedlaethau fynd yn bellach oddi wrth y tir, mae Aled yn credu bod angen cynyddol i gyfleu stori gadarnhaol bwyd a ffermio Cymru, gan bontio'r rhaniad rhwng gwlad a thref.

# DYDD LLUN 27AIN TACHWEDD 2023

| Amseriadau Rhestredig | Amserlen | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| 9:00 - 11:00 | Plant Cynradd ac Uwchradd yn cyrraedd | Croeso, cofrestru, ymgyfeirio, egwyliau ty bach, cyfleusterau cyhoeddus llawr uchaf. |
| 11:00 - 11:30 | Michael Kennard, Compost Club | Saesneg: micro-organebau sy'n rhoi bywyd i bridd; bwyd pridd a chompost. |
| Egwyl | Stondinau Arddangos | Egwyl |
| 12:00 - 12:30 | Adam Jones, Adam yn yr Ardd | Cymraeg: Bioamrywiaeth yn ein gerddi a thyfu bwyd. |
| 12:30 - 13:30 | Cinio i fyny'r grisiau i'r hall blant Cynradd a Phlant YsgolionUwchradd yn cyrraedd | Cynradd yn gadael i grwydro'r Ffair Aeaf ehangach Uwchradd yn paratoi ar gyfer Sesiynau |
| 13:00 - 13:40 | Helen Barnes, Cynghorwr Amaethyddol | Saesneg: 'Y Byd dan ein traed'. Rheoli pridd; maethynnau; bioamrywiaeth ac ecosystemau pridd. |
| 14:00 - 14:40 | Abi Reader, NFU Cymru a Chris Duller, Cynghorwr tir glas a rheoli pridd a ffermwr biff rhan-amser | Saesneg: Rheoli tir, cemeg pridd a chynhyrchu. |
| Egwyl | Stondinau Arddangos | Egwyl |
| 15:00 - 16:00 | David Elias, Pare Cenedlaethol Eryri<br>Hali ac Ateb gan Jonathan Wilkinson | Saesneg: Cadwraeth; cydbwysedd bywyd gwyllt, gwarcheidwaid ein tir a ffermio. Cyfweliad addysgiadol na ddylid ei golli! Arwyddo llyfr. (*Shaping The Wild*) |
| 16:00 - 17:00 | Stondinau Arddangos | Stondinau Arddangos |
| 17:30 - 20:00 | Awr Holi'r Farmers Weekly<br>Siaradwyr: 18:00<br>Derbyniad diodydd: 19:15 | Trafodaethyn canolbwyntio ar oedolion i fusnesau ffermio a sectorau'n gysylltiedig ag amaeth. System archebu i ddod i mewn annibynnol gan y Farmers Weekly. |

# DYDD MAWRTH 2GAIN TACHWEDD 2023

| Amseriadau Rhestredig | Amserlen | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| 9:00 - 11:00 | Plant Cynraddac Uwchradd yn cyrraedd | Croeso, cofrestru, ymgyfeirio, egwyliau ty bach, cyfleusterau cyhoeddus llawr uchaf. |
| 11:00 - 11:30 | Michael Kennard, Compost Club | Saesneg: micro-organebau sy'n rhoi bywyd i bridd; bwyd pridd a chompost. |
| Egwyl | Stondinau Arddangos | Egwyl |
| 12:00 - 12:30 | Adam Jones, Adam yn yr Ardd | Cymraeg: Bioamrywiaeth yn ein gerddi a thyfu bwyd. |
| 12:30 - 13:30 | Cinio i fyny'r grisiau i'r hall blant Cynradd a Phlant Uwchraddyn cyrraedd | Gadael i grwydro'r Ffair Aeaf ehangach Uwchradd yn paratoi ar gyfer Sesiynau |
| 13:00 - 13:40 | Helen Barnes, Cynghorwr Amaethyddol | Saesneg: 'Y Byd dan ein traed'. Rheoli pridd; maethynnau; bioamrywiaeth ac ecosystemau pridd. |
| 14:00 - 14:40 | Abi Reader, NFU Cymru a James Powell, Ffermwr Ucheldir | Saesneg: Rheoli tir, iechyd pridd, cynhyrchu, ac aildyfu. |
| Egwyl | Stondinau Arddangos | Egwyl |
| 17:00 - 18:00 | Ymadawiad | Ymadawiad |

**Diolch yn garedig i Teleri Glyn Jones, Lowri Williams, Elin Havard a Elen Williams am gyflwyno ein siaradwyr dros y ddau ddiwrnod.**

# CYFARFOD Y SIARADWYR - CYNRADD

**Michael Kennard, Compost Club**



Ar ol sefydlu gardd farchnad adfywiol ar raddfa fechan, fe wnaeth un neu ddau o ddanfoniadau o gompost gwastraff gwyrdd roi Michael Kennard ar lwybr i wneud rhywbeth gwell.

Ers dod o hyd i'w ffordd i'r gwaith hwn a gadael ei yrfa fel trydanwr a datblygwr eiddo y tu 61 iddo, bu ar daith ddarganfod yn ymagor o'i flaen, gan oresgyn pryderon cymdeithasol i ddod o hyd i lais i siarad dros y pridd.

Mae'r Compost Club yn gwmni menter gymdeithasol gyda phwrpas y tu hwnt i elw, gan greu cymuned o gompostwyr yn Brighton, Hove, Lewes, Lancing a'r ardaloedd o gwmpas. Mae ailgyfeirio gwastraff bwyd lleol o dirlenwi neu losgi yn bwysig iawn inni yn ogystal a chylchu'r maethynnau hyn i greu compost yn llawn micro organebau sy'n rhoi bywyd i'r pridd.

Mae'r broses yma'n lleihau'r allyriadau carbon o wastraff bwyd yn llwyr. Gallwn ddefnyddio'r cynnyrch i leihau milltiroedd compost, i ddal carbon a gwyrddlasu ein tirweddau lleol o erddi pobl, rhandiroedd a phrosiectau tyfu hyd yn oed yn fwy fel gerddi cymunedol, gerddi marchnad ac ystadau.

**Adam Jones, Adam yn yr Ardd**



Mae Adam Jones o Sir Gar yn arddwr adnabyddus, yn awdur llyfr garddio i blant ac yn wyneb a llais cyfarwydd i lawer gyda slotiau garddio rheolaidd ar y rhaglenni cylchgrawn Cymraeg, Prynhawn Da a Heno, a slotiau ar BBC Radio Cymru. Mae wedi datblygu llawer o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd gyda dros 26,000 o ddilynwyr ar Instagram (@adamynyrardd).

Dechreuodd Adam arddio pan oedd and yn 3 blwydd oed yn dilyn mwyniant garddio ei dad-cu. Gyda dros 20 mlynedd o brofiad garddio, mae Adam yn garddio'n organig gan ddefnyddio'r dull dim palu ac mae'n gwneud ymdrech i annog a gwella bioamrywiaeth ei ardd. Mae Adam yn gweithio gydag ysgolion a gyda grwpiau cymunedol i sefydlu gerddi newydd.

### Helen Barnes, Cynghorwr Amaethyddol Annibynnol



Mae gan Helen fwy nag 20 mlynedd o brofiad fel cynghorwr amaethyddol ac amgylcheddol. Bu hi'n gweithio i'r Grwp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt (FWAG) am fwy na 10 mlynedd ond y dyddiau hyn mae hi'n gweithio fel cynghorwr annibynnol, gan gymryd rhan mewn grwpiau trafod a digwyddiadau hyfforddi yn ogystal ag ar ffermydd unigol.

Mae hi'n arbenigo mewn rheoli pridd, maethynnau, a bioamrywiaeth. Pan oedd ei merched yn iau, fe drefnodd hi glwb gwyddoniaeth ar 61 ysgol yn eu hysgol gynradd, ac mae hi wedi gwneud gwaith hefyd gyda myfyrwyr Amaethyddiaeth TGAU.

Mae gan Helen ddiddordeb dwfn mewn materion amgylcheddol. Mae hi'n mwynhau rhannu ei gwybodaeth am yr ecosystem priddoedd diddiwedd o gymhleth a chyfareddol a'i phwysigrwydd inni i gyd ac mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn hyrwyddo gwell cyfathrebu rhwng y sectorau ffermio a'r sectorau sydd heb fod yn ffermio.

### Abi Reader, Ffermwr Llaeth a Dirprwy Lywydd NFU Cymru



Mae Abi yn Ddirprwy Lywydd NFU Cymru, ac yn ffermwr cymysg 3edd genhedlaeth ac yn gyd-sylfaenydd y prosiect 'Cows on Tour' llwyddiannus sydd wedi'i anelu at wella gwybodaeth am ffermio ym mhob plentyn, yn arbennig mewn ardaloedd trefol.

Mae hi'n groesawydd Sul fferm agored ac yn gyn-Ffermwraig y Flwyddyn Cymru NFU Cymru. Gyda llwybr addysgol parhaus, yn dilyn BSc mewn rheoli busnes Amaethyddol; MBA; aelod o raglen arweinyddiaeth yr Academi Amaeth; Ysgolor Cynhadledd Ffermio Rhydychen (OFC) gyda chyfranogiad mewn rhaglenni cyfnewid Cyswllt Ffermio a llawer mwy.

Mae Abi yn ffyrnig o angerddol y dylai pobl ifanc i gyd fod ag ymwybyddiaeth sylfaenol o dechnegau amaethyddiaeth, gan werthfawrogi'r 'cynnyrch terfynol' h.y., bwyd, amgylcheddol, garddwriaeth, rheoli tir. Mae hi bob amser wedi cydnabod pwysigrwydd Cwricwlwm Addysgol Cymru, gan weld manteision technegau dysgu hyblyg, sy'n hollbwysig i ddyfodol ffermio.

**Chris Duller, Cynghorwr tir glas a rheoli pridd a ffermwr biff rhan-amser**



Mae Chris yn gynghorwr tir glas a rheoli pridd ac yn ffermwr biff rhan-amser. Am y 25 mlynedd ddiwethaf, bu'n ymhel a ffermwyr yng Nghymru mewn rheoli tir, gan ystyried y buddion amgylcheddol.

Aeth i mewn i'r diwydiant amaethyddol trwy ddiddordeb mewn iechyd pridd, gan gysylltu hyn gyda gradd ymchwil mewn cemeg pridd. Mae'n cydnabod mai pridd yw'r prif gyfansoddiad o'n hamgylch sy'n dylanwadu ar bopeth, o'r ardd i fwyd, o agendau amgylcheddol i newid hinsawdd ac ansawdd dwr. Ei nod yw ehangu'r wybodaeth yma er budd pawb.

**James Powell, Ffermwr Ucheldir**



Yn dilyn gwibdaith CFfI i Kenya, cododd ei deithiau helaeth trwy Ddwyrain Affrica effeithiau tlodi ac addysg. Dychwelodd ddwywaith gan gychwyn prosiectau i ysgolion a chymunedau gwledig. Symudodd llwybr addysgol James ymlaen fel ysgolor HCC, gan ymweld a Seland Newydd ac Iwerddon, yn ogystal a Chyn-Fyfyrwyr Cenhedlaeth Nesaf yr NFU.

Roedd yn golofnydd rheolaidd i'r Farmers Guardian 'In Your Field' ac mae ganddo bartneriaethau parhaus gyda Cyswllt Ffermio, gyda'i fferm yn Fferm Ffocws ac Arddangos.

Mae gan James gysylltiad cryf a mudiadau ieuenctid gwledig ac mae'n angerddol ynghylch sicrhau dyfodol cynaliadwy trwy arferion blaengar. Roedd yn aelod o Raglen Arloesi Busnes ac Arweinyddiaeth Wledig yr Academi Amaeth ac mae'n fentor mewn iechyd pridd ac arallgyfeirio trwy Cyswllt Ffermio.

**David Elias, Cadwraethwr Profiadol**



Bu David yn naturiaethwr ers ei fachgendod a bu'n gweithio'n llawn amser mewn cadwraeth yn 1969. Symudodd ei yrfa ymlaen i'w swydd fel warden ar amrywiol warchodfeydd natur yn y Deyrnas Unedig, gan ddod i Gymru gyntaf yn 1975 i Fro Gwyr. Golygodd secondiad ei benodi ym Malawi yn yr 80au cynnar, ac wedi hynny roedd wedi'i leoli yn y Berwyn, Y Bala.

Gorfodwyd David i ymddeol yn gynnar oherwydd afiechyd a thrwy hynny bu iddo ailhyfforddi fel cwnselydd a seicotherapydd, ochr yn ochr a gweithio gyda Phrifysgol Bangor mewn arferion ymwybyddiaeth ofalgar. Mae ganddo gysylltiad a myfyrdod Bwdhaidd, sydd wedi dylanwadu ar ei agweddau a'i arddull ysgrifennu; ei nod yw ceisio tir cyffredin. Mae wedi ymrwymo i warchodaeth natur, gan ddiweddaru ei hun yn gydwybodol ar bob mater. Mae'i deulu yn rhannu ei angerdd ac maent yn wardeiniaid i'r RSPB yng Nghymru.

Ag ymdeimlad i fod yn awdur mae ganddo lawysgrifau heb eu cyhoeddi wedi'u seilio ar yr anturiaethau ym Malawi. Mae ganddo safle blogio -dispatches from the undergrowth.com. Cyhoeddwyd Shaping the Wild ym mis Ebrill 2023 gan Galon. Mae'n byw ym Machynlleth gyda'i wraig Elen.

**Jonathan Wilkinson, Cadeirydd Bwrdd Llaeth NFU Cymru**



Tyfodd Jonathan Wilkinson i fyny ar fferm laeth ei dad yn Dyffryn yn Nyffryn Meifod. Prynodd ei daid Dyffryn yn 1955 a chymerodd Jonathan yr awenau i redeg y fferm yn llawn yn 2000. Ers yr adeg hynny aeth y fuches o nerth i nerth gan ddiweddu'n fuches wobrwyedig o 550 o Friesians Holstein.

0 2019 mae'r fuches wedi'i beirniadu'n Bencampwr y buchesi Holstein pedigri yng Ngogledd Cymru gan Holstein UK am 4 blynedd yn olynol. Gwasgarwyd y fuches ym mis Mawrth eleni ond mae Jonathan yn dal i fod a'i wreiddiau yn Nyffryn Meifod.

Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Bwrdd Llaeth NFU Cymru ac mae ganddo ddiddordeb eang mewn ffermio a chefn gwlad; mae'n angerddol ynghylch annog newydd-ddyfodiaid i ffermio a helpu defnyddwyr i fod a gwell dealltwriaeth o sut y caiff eu bwyd ei gynhyrchu.

# COFIWCH YMWELD Â...

I ychwanegu at y rhaglen addysgol bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ymgysylltu a'r sefydliadau sydd gennym ar y safle, dyma ychydig y tybiwn y byddwch yn eu cael yn ddiddorol.

**Mae Cyswllt Ffermio yn** rhaglen sy'n darparu gwasanaethau datblygu proffesiynol parhaus cymorthdaledig ar gyfer ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru.

**Hybu Cig Cymru**
Meat Promotion Wales (HCC) yw'r sefydliad a arweinir gan y diwydiant sy'n gyfrifol am ddatblygu, hybu a marchnata cig coch o Gymru.

**Partneriaeth Diogelwch Fferm Cymru**
Mae'r bartneriaeth yn dod a phartneriaid allweddol ym myd amaeth at ei gilydd i hyrwyddo diogelwch ar ffermydd. Eleni mae gan y bartneriaeth lyfrau gweithgaredd a llyfrau stor''iau hyfryd i blant - yn sicr yn werth ymweliad!

**Undeb Amaethwyr Cymru**
Yma yn UAC rydym yn ymfalch''io yn y cysylltiad gwerin gwlad sydd gennym gyda'n ffermwyr. Mae gennym strwythur democrataidd a lleol, sy'n golygu bod yr aelodau'n dylanwadu ar bolisi UAC ac mai nhw yw craidd yr Undeb.

**CFfI Cymru**
Mae Ffederasiwn Cymru'r Clybiau Ffermwyr Ifanc yn fudiad ieuenctid gwirfoddol sy'n gweithredu'n ddwyieithog ledled Cymru wledig.

**Lantra Cymru**
Mae ein tim yng Nghymru yn gweithio i'ch helpu i gael at yr hyfforddiant, y cymwysterau, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch. Holwch i gael gwybod mwy am ein gwaith a sut ydym yn Gwneud y Gwahaniaeth n N h mru.

**NFU Cymru**
Yw'r prif sefydliad amaethyddol sy'n cynrychioli ac yn pleidio achos yr holl ffermwyr a thyfwyr yng Nghymru.

**CLA Cymru**
Yn cynrychioli tua 3,000 o aelodau yng Nghymru, ein hamcanion yw llunio dyfodol amaethyddiaeth Cymru, hyrwyddo adfywio'r economi wledig, gwella system gynllunio Cymru, dylanwadu ar etholiadau'r Senedd a llawer mwy.

# GWYBODAETH HANFODOL

Ein nod yw sicrhau bod croeso i bawb yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, yn arbennig felly yn y Ganolfan Addysg, y gallech fod yn ei hadnabod fel Canolfan yr Aelodau yn ystod wythnos y sioe. Dyma'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i'ch helpu i gynllunio ymlaen llaw at eich ymweliad.

**Bydd y Rhaglen Addysg yn digwydd 27–28 Tachwedd 2023 yng Nghanolfan yr Aelodau ar Faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd Llanfair ym Muallt, Powys LD2 3SY**

- Mae **toiledau** a thoiledau Hygyrch ar gael ar lawr isaf y Ganolfan Addysg ac ar draws y maes, cyfeiriwch at y map am y lleoliadau os gwelwch yn dda.
- Mae **Cymorth Cyntaf** wedi'i leoli yn y Tŵr Rheoli Defaid a gellir cael ato trwy ffonio 01982 554407 rhwng yr oriau 10yb – 6yh. Rhowch wybod i aelod o'r staff neu stiward os oes angen cymorth arnoch. Mae'r ysbytai agosaf wedi eu lleoli yn Henffordd neu Aberystwyth.
- Mae **diffibriliwr** ar y safle ac wedi'i leoli yn derbynfa pencadlys y Gymdeithas, ffoniwch 01982 553683.
- **Dylai Plant ar Goll** cael eu hysbysu i bencadlys y Gymdeithas trwy ffonio 01982 553683. Mae polisi person ar goll ar gael ar gais.
- **Mae Golchi Dwylo** a iechyd a diogelwch cyflawn ein ymwelwyr yn bwysig iawn i ni. Er mwyn lleihau y beryg o salwch, dylai pob oedolyn a phlentyn golchi eu dwylo yn ddrwyadl gan ddefnyddio sebon a dŵr wedi iddynt drafod anifeiliaid neu chyffwrdd arwynebau yn y digwyddiad. Dylid golchi dwylo bob tro cyn byta neu yfed ac ar ôl defnyddio y toiled. Mae gyda ni nifer o gyfleusterau golchi dwylo ar y maes yn ychwanegol at y blociau toiledau.
- Mae **bwyd** ar gael i'w brynu ar y safle, mae gyda ni detholiad eang o lefydd arlwyo yn gweini amryw o brydiau poeth ac oer, gellir mwynhau cinio pecyn lan neu lawr llawr y Ganolfan Addysg ac mae gyda ni ardal cinio pecyn tu fewn wedi ei leoli yn y Pafiliwn Ffwr a Fflu. Mae yna hefyd nifer o feinciau picnic ar y safle.
- Mae **Man Tawel** bach wedi'i leoli i fyny'r grisiau yn y Ganolfan Addysg ar gyfer unrhyw bobl ifanc a all fod yn teimlo'r angen i adael y sesiynau am ychydig amser.
- Bydd **llyfrau** ar gael i'w prynu ar y safle wedi'u hysgrifennu gan rai o'n siaradwyr ac mae **Groto Siôn Corn** petai'r plant yn dymuno dod â rhywfaint o arian poced, awgrymwn £5 i ymweld â Siôn Corn.

Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus – mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Cyf yn dal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus hyd at £10 miliwn. Mae'r polisi gyda NFU Mutual ac mae modd cael copi o'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gais.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach neu yr hoffech gael sgwrs â ni cyn ichi ymweld ebostiwch ni neu ffoniwch ni ar 01982 553683 neu requests@rwas.co.uk ac fe wnawn ein gorau glas i helpu.**